

## BLAENORIAETHAU'R PRIF SWYDDOG NYRSIO 2019-2021

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r meysydd gwaith penodol sy'n cael eu harwain gan Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio yn Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflawni 'Cymru Iachach' (2018), y strategaeth iechyd a gofal cymdeithasol ddeng mlynedd ar gyfer Cymru. Mae'r meysydd a amlygir isod yn adeiladu ar y blaenoriaethau a bennwyd yn 2016 ar ddechrau'r tymor Llywodraeth Cymru hwn ac yn mynd â ni i ddiwedd y tymor yn 2021.

Y nod strategol yw gwireddu potensial llawn y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth er mwyn diwallu anghenion iechyd a lles newidiol pobl sy'n byw yng Nghymru, mewn partneriaeth ag eraill.

THEMA FLAENORIAETH Y PRIF SWYDDOG NYRSIO	Blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer gweithredu 2019-2021
<b>Proffesiynoldeb</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu modelau a chanllawiau i gefnogi ac annog goruchwyliaeth glinigol i nyrsys, ar y cyd ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru. I'w gwblhau erbyn 2021.</li> <li>• Gwerthuso model goruchwyllo bydwagedd dan arweiniad cyflogwyr. I'w gwblhau erbyn 2021.</li> <li>• Gweithio gyda Phrif Swyddogion Nyrsio y DU/Iwerddon i ddatblygu cyfres o adnoddau sy'n disgrifio a hyrwyddo dealltwriaeth fodern o rôl broffesiynol nyrs (pob maes) neu fydwraig. I'w gyhoeddi yn 2020 fel rhan o Flwyddyn Ryngwladol y Nyrs a'r Fydwraig sydd wedi'i dynodi gan Sefydliad Iechyd y Byd.</li> </ul>
<b>Llais ac Arweinyddiaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Swyddogion proffesiynol yn Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio i hyrwyddo ac annog nyrsys a bydwagedd i gael llais cryf ar bob lefel o ofal iechyd. Y Prif Swyddog Nyrsio i gyfarfod â Phrif Swyddogion Nyrsio y DU/Iwerddon bob chwarter, cyfarfod bob mis gyda Chyfarwyddwyr Nyrsio Gweithredol GIG Cymru, a bod yn aelod o drefniadau rheoli perfformiad Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru. Cynnal cyfarfodydd rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol e.e. Cyngor Deoniaid Cymru, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.</li> <li>• Ariannu a rhoi cymorth arall bob blwyddyn i ddarparu rhaglenni arweinyddiaeth ac ysgoloriaethau i nyrsys a bydwagedd er mwyn gwella sgiliau yn y gweithlu. Pwysleisio rôl arweinyddiaeth glinigol mewn nyrsio a bydwreigiaeth sy'n gwella canlyniadau gofal cleifion.</li> <li>• Hwyluso dysgu system gyfan i wella'r llwybr gofal i gleifion bariatrig iawn sy'n mynd yn sâl, a gweithio gyda GIG Cymru i sicrhau darpariaeth cyfleusterau a gwasanaethau priodol.</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod y Rhaglen Gwella Bywydau (anabledd dysgu) trawslywodraeth yn cael ei darparu erbyn 2021 – hwyluso Grŵp Craffu Cyfarwyddwyr a Grŵp Cynghori'r Gweinidog sy'n gweithio ar draws Llywodraeth Cymru.</li> </ul>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Darparu cyngor proffesiynol wrth ddatblygu deddfwriaeth ar ansawdd a llywodraethu'r GIG yng Nghymru.</li> </ul>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nursing Now Cymru – Cefnogi'r gwahanol ffrydiau gwaith, sicrhau cysylltiadau ag ymgyrch farchnata 'Hyfforddi, Gweithio, Byw' i fynd i'r afael ag amrywiaeth yn y proffesiynau. Gweithio gyda Llywodraeth Ghana ac RCN i ddarparu rhaglen ddatblygu arweinyddiaeth nyrsio yn y wlad.</li> </ul>
<b>Gweithlu ac Addysg</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Monitro a chefnogi'r gwaith o weithredu Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 ar draws GIG Cymru drwy'r grŵp staff nyrsio cenedlaethol. Cefnogi gwaith sy'n galluogi sefydliadau'r GIG i fodloni'r gofynion sydd yn y Ddeddf yn 2021.</li> <li>Hwyluso estyniad deddfwriaethol i Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) i gynnwys meysydd cleifion pediatreg mewnol, i'w rhoi ar waith erbyn Ebrill 2021.</li> <li>Goruchwyllo gwaith y grŵp staff nyrsio cenedlaethol wrth ddatblygu adnoddau gweithlu a dangosyddion canlyniadau ystyriol o gleifion yn y meysydd canlynol: nyrsio cymunedol, iechyd meddwl cleifion mewnol, ymwelwyr iechyd; datblygu canllawiau i gomisiynwyr gofal nyrsio mewn cartrefi gofal yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cymdeithasol 2016. Hwyluso'r newid yn nhrefniadau cynnal y rhaglen genedlaethol o Iechyd Cyhoeddus Cymru i Addysg a Gwella Iechyd Cymru ym mis Ebrill 2020.</li> <li>Cyhoeddi a monitro cydymffurfiaeth ag egwyddorion y gweithlu nyrsio ar gyfer: gwasanaethau dan arweiniad nyrsys ardal (cyhoeddwyd yn 2017), gwasanaethau cleifion pediatreg mewnol (cyhoeddwyd yn 2019), gwasanaethau iechyd meddwl cleifion mewnol (i'w cyhoeddi yn 2020).</li> <li>Cefnogi cyflwyno safonau addysg diwygiedig y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth gychwynnol drwy Gyngor Deoniaid Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru erbyn 2020.</li> <li>Datblygu a hyrwyddo rolau a llwybrau gyrfa clinigol, academiaidd ac ymgynghorol ar y cyd ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru.</li> </ul>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cefnogi ymateb Llywodraeth Cymru i'r ddeiseb yn galw am hyfforddiant gorfodol i staff ysbytai sy'n gofalu am bobl ag anabledd dysgu (6 Tachwedd 2019). Comisiynu datblygu fframwaith haenog o addysg a hyfforddiant i staff iechyd sy'n gofalu am bobl ag anabledd dysgu i'w gyflwyno yng Ngwanwyn 2020.</li> </ul>

<b>Gwybodeg</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>O 2020 ymlaen, ariannu ysgoloriaethau arweinyddiaeth ddigidol nyrsio drwy'r Academi Ddigidol ac a ddarperir gan y Florence Nightingale Foundation.</li> <li>Cydweithio â nyrs arwain Gwasanaeth Gwybodeg Cenedlaethol Cymru i hwyluso'r gwaith o ddatblygu a gweithredu atebion digidol i gefnogi gwasanaethau gofal iechyd cynaliadwy o safon uchel. Mae hyn yn cynnwys cofnodi gwybodaeth cleifion yn electronig a gweithredu systemau i wella rhybuddion cleifion mewn lleoliadau iechyd a gofal.</li> </ul>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Goruchwylio'r gwaith o ddigideiddio rhaglen dogfennaeth nyrsio. Cytunwyd ar saith adnodd asesu craidd yn 2019 sydd i'w digideiddio a'u cyflwyno i'w defnyddio gan GIG Cymru yn 2020/21.</li> </ul>
<b>Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal cynhadledd flynyddol ym mis Mai i alluogi nyrsys a bydwagedd i arddangos mentrau seiliedig ar dystiolaeth sydd wedi gwella gofal i gleifion.</li> </ul>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dyfarnu Ysgoloriaeth Betsi Cadwaladr yng nghynhadledd arddangos flynyddol y Prif Swyddog Nyrsio; ac ariannu gwobr y Prif Swyddog Nyrsio yn Nyrs y Flwyddyn RCN Cymru. Y ddwy wobwr i gydnabod arweinyddiaeth sylweddol wrth sicrhau gwelliannau neu arloesedd mewn gwasanaeth neu addysg sy'n effeithio ar ganlyniadau cleifion.</li> </ul>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pan fo ymarfer seiliedig ar dystiolaeth newydd wedi'i sefydlu a fyddai o fudd i'r system gofal iechyd yng Nghymru, cyhoeddi cyfarwyddyd neu ganllawiau i GIG Cymru i fabwysiadu ymarfer seiliedig ar dystiolaeth, er enghraifft: <ul style="list-style-type: none"> <li>Mabwysiadu System Rhybudd Cynnar Cenedlaethol Cymunedol (NEWS) (2019)</li> <li>Pecyn ObsCymru ar gyfer rheoli gwaedlif ôl-enedigol (2019)</li> </ul> </li> </ul>
<b>Hybu Iechyd a Lles y Boblogaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu a lansio'r weledigaeth ar gyfer gwasanaethau mamolaeth darbodus ym mis Gorffennaf 2019; cefnogi gweithredu wedi hynny drwy'r Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol.</li> </ul>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithredu argymhellion yr adolygiad i fwydo ar y fron – adroddiad a lanswyd ym mis Gorffennaf 2019 ochr yn ochr â gwaith 'Dod yn Genedl sy'n Croesawu Bwydo ar y Fron' gan Iechyd Cyhoeddus Cymru</li> </ul>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cefnogi'r ymgyrch brechiad fflwi blynyddol drwy anfon llythyr blynyddol i staff, negeseuon ar Twitter a negeseuon fideo ar-lein</li> </ul>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Darparu cyngor proffesiynol ar gyfer treialu 'bocs rhodd babi' i rieni newydd yng Nghymru i'w gynnal gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn 2020.</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cefnogi'r gwaith o ddatblygu modelau clinigol a chost-ffeithiol i gynnal Archwiliadau Iechyd Blynyddol ym maes gofal sylfaenol i bob unigolyn 14+ oed sydd wedi cael diagnosis o anabledd dysgu ac wedi cofrestru gyda meddyg teulu</li> </ul>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hwyluso a monitro'r gwaith o weithredu'r fframwaith newydd ar gyfer nyrsio ysgol mewn ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig; darparu cyngor proffesiynol i'r rhaglen ysgol gyfan i gefnogi iechyd a lles meddyliol plant.</li> </ul>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu cyngor a chymorth proffesiynol i gyflawni Strategaeth Pwysau Iach Cymru (2019).</li> </ul>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mynd ati i gael nyrsys a bydwagedd i ddilyn hyfforddiant 'Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif'</li> </ul>
<b>Ansawdd a Diogelwch Gofal</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal byrddau perfformiad blynyddol o wasanaethau mamolaeth (hydref/dechrau'r gaeaf). Gwneud gwaith monitro ychwanegol a darparu mwy o gymorth i wasanaethau mamolaeth sy'n cael eu huwchgyfeirio.</li> </ul>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cwblhau gwaith i roi sylw i Argymhelliad 2 Adroddiad Flynn. Mae'r gweithgarwch yn cynnwys gweithredu system gofnodi i bobl sydd â briwiau pwyso (Cat III ac uwch) mewn Cartrefi Gofal. Profion ar ôl-troed Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i'w cwblhau ym mis Mawrth 2020. Cyflwyno'n llawn i holl gartrefi gofal Cymru yn 2020/21.</li> </ul>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hyrwyddo lles a diogelwch plant ac oedolion sydd mewn perygl. Monitro a chefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau diogelu yn GIG Cymru – adolygiad bob chwe mis ar y cyd â Chyfarwyddwyr Nyrsio Gweithredol yng Nghymru; goruchwylio adolygiad cymheiriad blynyddol o wasanaethau diogelu GIG Cymru wedi'i hwyluso gan Iechyd Cyhoeddus Cymru; cyhoeddi canllawiau ar fod yn hebyngwr yn 2019. Cyfrannu at ddatblygu polisi diogelu pobl Cymru gyfan, arferion gorau a chanllawiau a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2019.</li> </ul>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Arwain gwaith i fireinio sut mae niwed yn cael ei fesur: cwmpadau, niwed pwysedd, camgymeriadau gyda meddyginiaeth a chwynion am ofal nyrsio; diwygio'r ffordd o adrodd drwy Datix fel bod niwed y gellir ei atal yn cael ei nodi – cynnal adolygiadau thematig o'r data hwn.</li> </ul>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Parhau i ddatblygu polisiau a chanllawiau sy'n sicrhau y gofynnir am ac y gwrandewir ar lais y defnyddiwr gwasanaeth unigol fel ei fod yn llywio'r gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru.</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cefnogi gwaith ar lefel genedlaethol a bwrdd iechyd i sicrhau bod darpariaeth gwasanaethau Anabledd Dysgu arbenigol ar gael mor agos at adre â phosibl a bod gofal a thriniaeth yn briodol, o safon uchel ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau.</li> </ul>
<b>Hyrwyddo Integreiddio Gofal</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cefnogi'r gwaith o ddatblygu un fframwaith canlyniadau integredig sy'n weithredol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, i'w gyhoeddi yn 2020.</li> </ul>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Goruchwylio cynlluniau peilot Nyrsio Cymdogaeth a ariannwyd gan gompact Plaid Cymru ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. I adrodd yn haf 2020. Cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r hyn a ddysgwyd o'r cynlluniau peilot hyn ledled GIG Cymru.</li> </ul>